**Atodiad 2**

# Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Ac Eithrio'r Gwasanaeth Bwyd Anifeiliaid*)

Dyddiad archwilio: 18 – 22 Ionawr 2016
Dyddiad yr ymweliad dilynol: 25 – 26 Hydref 2023

(*) Nid yw'r camau mewn perthynas â bwyd anifeiliaid sy'n codi o'r archwiliad wedi'u cynnwys. Cyflwynwyd model gweithredu bwyd anifeiliaid rhanbarthol yng Nghymru o fis Ebrill 2015.

Allwedd statws

| | |
|---|---|
| Glas | Cwblhawyd |
| Gwyrdd | Cynnydd da |
| Oren | Cynnydd cyfyngedig |
| Coch | Dim cynnydd |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 3.23 (i) Sicrhau y caiff amrywiadau mewn perthynas ag ymyriadau sefydliadau hylendid bwyd risg is eu nodi yn y cynllun gwasanaeth. [Y Safon 3.1] | Glas | | | Cwblhawyd |
| 5.9 (i) Diwygio'r awdurdodiadau safonau bwyd i sicrhau bod swyddogion wedi'u hawdurdodi'n gywir o dan yr holl ddeddfwriaeth briodol. [Y Safon – 5.1] | Glas | | | Cwblhawyd |
| (ii) Cadw cofnodion o hyfforddiant a phrofiad perthnasol pob swyddog safonau bwyd awdurdodedig yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.5] | Glas | | | Cwblhawyd |
| Camau gweithredu ynghylch archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd sy'n ymwneud â gweithdrefnau | Glas | | | Cwblhawyd |
| 7.24 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Gwyrdd | Rhoi cynllun ar waith i fynd i'r afael â'r ymyriadau hyn yn ystod 16/17 – 17/18 gyda swyddog goramser/ymgysylltu â chontractwr. | Gwasanaeth yn adfer yn sgil effeithiau pandemig COVID-19, gyda chynllun sy'n seiliedig ar risg ar waith er mwyn mynd i'r | Ymgymryd ag ymyriadau yn unol â'r amlderau gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | afael ag ôl-groniad o ymyriadau. | |
| (ii) Sicrhau, lle bo'n berthnasol, y caiff Strategaethau Gorfodi Amgen eu cyflawni, ac y nodir y dyddiad ar bob ffurflen gofrestru fel bod sefydliadau wedi'u cofrestru yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 7.2] | Glas | Gwiriadau a gynhelir fel rhan o fonitro mewnol. | | Cwblhawyd |
| (iii) Asesu'n llawn gydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau a ragnodwyd yn gyfreithiol; yn arbennig, mewn perthynas â gwiriadau ar darddiad bwyd a fewnforir a gwiriadau ar nodau iechyd / adnabod. [Y Safon – 7.3] | Gwyrdd | Gwiriadau a gynhelir fel rhan o fonitro mewnol. | Mae gwiriadau ar asesiadau HACCP a rheolaethau croeshalogi yn cael eu dogfennu'n ddigonol. | Gwiriadau dogfennol ar fwydydd a fewnforir a marciau iechyd / adnabod sy'n dod i mewn yn ystod ymyriadau diogelwch bwyd, a sicrhau bod gwiriadau marciau iechyd yn cael eu dogfennu yn ystod arolygiadau o safleoedd cymeradwy. |
| 7.44 (i) Sicrhau bod ymyriadau ac arolygiadau safonau bwyd mewn sefydliadau yn cael eu cynnal ar amlder nad ydynt yn llai na'r hyn a bennir gan y | Gwyrdd | Gwiriadau a gynhelir fel rhan o fonitro mewnol. | Gwasanaeth yn adfer yn sgil effeithiau pandemig COVID-19, gyda chynllun | Ymgymryd ag ymyriadau yn unol â'r amlderau gofynnol a bennir |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | | | sy’n seiliedig ar risg ar waith er mwyn mynd i’r afael ag ôl-groniad o ymyriadau. | gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. |
| (ii) Cynnal ymyriadau / arolygiadau, gan gynnwys strategaeth orfodi amgen, yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | Gwyrdd | Gwiriadau a gynhelir fel rhan o fonitro mewnol. | Mae strategaeth orfodi amgen yn cael ei defnyddio yn unol â’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. | Wrth gynnal safonau bwyd, sicrhewch fod eich bod yn dogfennu p'un a yw arolygiad yn un a rhoddwyd gwybod amdano ymlaen llaw, neu'n arolygiad dirybudd.<br><br>Wrth gynnal arolygiad lle rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw, sicrhewch fod y cyfiawnhad dros hyn yn cael ei ddogfennu yn unol â’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. |
| (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â’r safonau sydd wedi’u pennu gan y gyfraith, a sicrhau y cymerir camau priodol i fynd ar drywydd unrhyw achosion | Glas | Monitro mewnol i wirio gwelliannau a weithredir yn ymarferol. | | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| o ddiffyg cydymffurfio, yn unol â pholisi gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3] | | | | |
| 7.44 (iv) Diwygio'r gweithdrefnau ymyrryd i roi canllawiau ar ddefnyddio arbenigwyr a strategaethau gorfodi amgen [Y Safon – 7.4] | Glas | | | Cwblhawyd |
| (v) Sicrhau bod sylwadau a/neu ddata a gasglwyd yn ystod yr arolygiad/archwiliad yn cael eu cofnodi yn amserol er mwyn osgoi colli gwybodaeth berthnasol, a sicrhau bod cofnodion ymyriadau cyfoes yn cael eu storio mewn modd sy'n ei gwneud yn hawdd cael gafael arnynt. [Y Safon – 7.5] | Glas | Gwiriadau a gynhelir fel rhan o fonitro mewnol. | | Cwblhawyd |
| 8.9 (i) Diwygio'r weithdrefn safonau bwyd i gynnwys amseroedd targed ar gyfer ymateb i gwynion safonau bwyd neu geisiadau am wasanaeth. [Y Safon – 8.1] | Glas | | | Cwblhawyd |
| 12.10 (i) Cymryd camau priodol yn unol â'r polisi gorfodi lle nad ystyrir bod canlyniadau samplu safonau bwyd yn foddhaol. [Y Safon – 12.7] | Glas | Gwiriadau a gynhelir fel rhan o fonitro mewnol. | | Cwblhawyd |
| 13.9 (i) Diwygio'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol i gynnwys y camau gofynnol lle na chaiff holiaduron drwy'r post eu dychwelyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 13.2] | Glas | | | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 15.17 (i) Adolygu a diwygio'r polisi gorfodi i gynnwys meini prawf ar gyfer defnyddio hysbysiadau statudol a chamau gweithredu mewn sefydliadau cymeradwy yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol, a chynnwys cyfeiriad at fusnesau a weithredir gan yr awdurdod. [Y Safon – 15.1] | Glas | | | Cwblhawyd |
| (ii) Adolygu, diwygio a chyflwyno ei weithdrefnau gorfodi cofnodedig i gynnwys mwy o fanylion ar drefniadau lleol ar gyfer dinistrio a chael gwared ar fwyd anniogel, a darparu gwybodaeth am ddulliau amgen o gyflwyno hysbysiadau gwella hylendid bwyd. [Y Safon – 15.2] | Glas | | | Cwblhawyd |
| (iii) Sicrhau bod gwaith gorfodi hylendid bwyd yn cael ei gynnal yn unol â'r gweithdrefnau, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau swyddogol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safonau – 15.3 a 15.3] | Glas | Gwiriadau a gynhelir fel rhan o fonitro mewnol | | Cwblhawyd |
| (iv) Sicrhau y caiff pob penderfyniad ar gamau gorfodi eu cofnodi, ac y cânt eu gwneud ar ôl ystyried polisi gorfodi'r awdurdod. Rhaid cofnodi'r rhesymau dros unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a nodir yn y polisi gorfodi. [Y Safon – 15.4] | Glas | Gwiriadau a gynhelir fel rhan o fonitro mewnol. | | Cwblhawyd |
| 16.9 (i) Cynnal cofnodion cywir a chyfredol o'r holl sefydliadau bwyd yn ei ardal, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Bydd | Glas | Gwiriadau a gynhelir fel rhan o fonitro mewnol. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| y cofnodion hyn yn cynnwys adroddiadau ar bob ymyriad/arolygiad, (gan gynnwys copïau o adroddiadau arolygiadau bwyd), penderfynu ar gydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wneir gan y swyddog awdurdodedig, manylion y camau a gymerwyd lle nodwyd achos o fethu â chydymffurfio a manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd. Dylai'r awdurdod hefyd gofnodi, gan nodi rhesymau, unrhyw achosion o wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon – 16.1] | | | | |
| 19.11 (i) Ehangu cwmpas ei weithdrefnau monitro mewnol ar gyfer hylendid bwyd i gynnwys strategaeth orfodi amgen, ymchwiliadau clefydau trosglwyddadwy ac awdurdodiadau swyddogion, a chynnwys strategaeth orfodi amgen yn ei weithdrefnau monitro safonau bwyd mewnol, gan nodi amlder gweithgarwch monitro ffeiliau. Rhoi'r gweithdrefnau diwygiedig ar waith. [Y Safon – 19.2] | Gwyrdd | Gwiriadau ychwanegol i'w cynnal fel rhan o'r weithdrefn fonitro fewnol ddiwygiedig. | Gweithdrefnau monitro mewnol wedi'u diwygio i ymestyn y cwmpas i gynnwys pob maes. Rhoi gweithdrefnau ar waith i gwmpasu pob maes o gynnal safonau bwyd a'r rhan fwyaf o feysydd cynnal hylendid bwyd. | Rhoi gweithdrefnau ar waith i fonitro pob maes o gyflenwi hylendid bwyd, yn arbennig, samplu ac ymateb i ddigwyddiadau, tra'n cynyddu maint y sampl wrth fonitro ymyriadau. |

Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **21** |
| **Cwblhawyd** | **16** |
| **Cynnydd da** | **5** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | **0** |
| **Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu** | **0** |
| **Cyfanswm heb ei gyflawni** | **5** |